Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Llanwnnen
**Llanwnnen**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 7LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith — Cyrraedd y Nod — The Corporate Standard — Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd — Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Llanwnnen, ger Llanbedr Pontsteffan, Ceredigion, a gwasanaetha bentref Llanwnnen, Cribyn a'r ardal gyfagos. Mae 41 o ddisgyblion rhwng 4-11 oed ar y gofrestr.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion amser llawn i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid oes darpariaeth feithrin yn yr ysgol ond mae bron pob un disgybl wedi derbyn addysg cyn dechrau yn yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddau athro llawn amser ac un ran amser.

Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio cryn dipyn pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae naw o ddisgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, ond nid oes yr un ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn datgan nad yw'r ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 12% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn is na'r ffigyrau'r awdurdod lleol a'r ffigyrau cenedlaethol.

Yn dilyn cyfnod o adrefnu apwyntiwyd pennaeth newydd i'r ysgol yn nhymor yr haf 2010 ac mae ganddi gyfrifoldeb dros ddwy ysgol arall yn yr ardal. Fe gaiff ei chefnogi gan bennaeth cynorthwyol sydd hefyd yn athro yng nghyfnod allweddol 2.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanwnnen yn 2011-2012 yn £4,031 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,706 a'r lleiafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Llanwnnen yn safle 24 o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- yr addysgu'n gyson dda;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod anghenion rhan fwyaf y disgyblion; a
- partneriaethau gyda'r rhieni yn dda iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol weledigaeth glir a'u bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, llywodraethwyr a'r rhieni;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda;
- cynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar godi safonau; a'r
- staff yn barod i gydweithio'n gyda ysgolion y clwstwr fel cymuned ddysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd y cyfnodau allweddol;

A2 codi safonau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2; a

A3 gwella sillafu Saesneg, cyflwyniad gwaith a llawysgrifen disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn

Ar y cyfan mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn dda o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn amrywio ond yn tueddu i fod ychydig yn is nag ysgolion tebyg.

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, cyflawnodd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) ym mhob pwnc craidd. Dros yr un cyfnod, mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel 3 neu uwch yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd yn cymharu'n dda gyda'r teulu o ysgolion tebyg yn y Gymraeg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (lefel 4) yn gyffredinol wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru a'r teulu o ysgolion. Er yn amrywio, yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn yr 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn uwch na ffigyrau'r teulu a chyfartaledd Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod y tair blynedd flaenorol, prin oedd y nifer o ddisgyblion oedd yn cyflawni'r lefelau uwch.

Yn eu llyfrau gwaith ac mewn gwersi, mae llawer o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cyson. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn hyderus a gwybodus. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn eu cymhwyso i sefyllfaoedd newydd.

Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae gan fwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol fedrau siarad a gwrando da. Mae'r rhai mwyaf galluog yn mynegi eu syniadau yn hyderus mewn sawl maes ac yn barod iawn i gyfrannu yn ystod y gwersi. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac yn effeithiol.

Mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r testun. Defnyddiant ystod o strategaethau priodol yn llwyddiannus i fynd i'r afael â geirfa newydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer o'r disgyblion ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystyrlon a chyda goslef briodol. Maent yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio llyfrau amrywiol yn bwrpasol i gywain gwybodaeth yn eu hastudiaethau.

Yn y Cyfnod Sylfaen gwna llawer o'r disgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa addas a diddorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg yn dda ond nid ydynt cystal yn y Saesneg oherwydd nad yw medrau sillafu llawer ohonynt yn ddigon cadarn. Prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm.

Nid yw cyflwyniad gwaith a llawysgrifen llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu safon dda eu gwaith.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini. Maent i gyd yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn barod i gyfrannu mewn gwersi.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Dengys y disgyblion barch a gofal am ei gilydd, ac maent yn gwrtais â phawb.

Mae cyfraddau presenoldeb yn dda iawn ac yn uwch nag mewn ysgolion tebyg.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod ac yn awyddus i dderbyn cyfrifoldebau o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae'r cyngor ysgol yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau, a chaiff safbwyntiau a syniadau disgyblion eu hystyried yn ofalus.

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac maen nhw'n cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Dim ond megis dechrau mae gosod meini prawf llwyddiant yn rhan reolaidd o ymarfer yn y dosbarthiadau. Bellach, mae disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn dod yn fwy hyderus yn y broses ac yn deall pa mor fuddiol yw'r pwrpas. Lleiafrif o'r disgyblion sydd ar hyn o bryd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Nid ydynt bob amser yn sicr am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r gwersi wedi'u cynllunio'n dda gan gynnig ystod o brofiadau diddorol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Gwneir defnydd da iawn o'r amgylchedd tu allan, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ymweliadau helaeth tu hwnt i'r ysgol ac ymwelwyr i'r ysgol yn cyfrannu'n sylweddol i ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llafar a darllen disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn effeithiol ac fe geir amrywiaeth o gyfleoedd mewn sawl maes. Serch hynny, nid yw'r ddarpariaeth yr un mor llwyddiannus ar gyfer sicrhau datblygiad ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm nac ychwaith wrth ddatblygu medrau sillafu yn y Saesneg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus, a rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol a gwaith ysgrifenedig y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhan o'r cynllun Eco-Sgolion ac yn anelu'n frwdfrydig tuag at achrediad y faner werdd.

Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol drwy ymwelwyr o dramor a gwaith mewn sawl pwnc.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu.

Mae gan yr athrawon a'r staff cymorth ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod y deilliannau dysgu yn glir ac yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu yn effeithiol. Mae llawer o'r gweithgareddau yn heriol a diddorol ac mae'r defnydd o adnoddau yn dda.

Mae'r cynlluniau gwersi bwriadus, a chymorth oedolion, wedi'u ffocysu'n glir ac yn cyfrannu'n dda at ansawdd y profiadau a gaiff y disgyblion. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol nid yw'r tasgau na'r cwestiynu bob amser yn ddigon heriol ar gyfer y disgyblion o allu uwch.

Mae'r athrawon yn defnyddio'u medrau asesu yn effeithiol i gynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant priodol, sydd yn helpu'r disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol sustemau tracio cynnydd a lles cynhwysfawr a thrylwyr ac maent yn effeithiol fel arf ar gyfer sicrhau ymyrraeth briodol.

Mae'r defnydd o bortffolios gwaith sydd wedi eu cymedroli yn werthfawr, ac yn hwyluso'r broses o bennu lefelau yn llwyddiannus.

Mae'r adroddiadau ar gynnydd y disgyblion i rieni yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau.

Hyrwyddir datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn effeithiol drwy gyfnodau cyd-addoli ac fe geir cyfnodau myfyrio buddiol yn y dosbarthiadau ac yn ystod amser cylch. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy gysylltiadau â sefydliadau yn y gymuned leol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, a llwyddir i ymateb yn brydlon i bryderon. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a'u diweddaru yn effeithiol a rheolaidd ac mae lefel uchel iawn o ymgynghori â rhieni. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o wasanaethau arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae ethos cartrefol, croesawgar yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn cyd-dynnu'n dda.

Anogir y disgyblion i ddangos parch a gofal tuag at eu hunain ac eraill, ac mae ganddynt berthynas dda gyda'u cyfoedion a staff yr ysgol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm ac mae bechgyn a merched yn cymryd rhan ymhob gweithgaredd.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy weithgareddau dosbarth, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg grefyddol.

Mae'r adeilad yn cynnig gofod digonol a chyfleusterau da ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r ystafelloedd o faint digonol ac mae'r ystod o adnoddau yn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu yn dda.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda ac mae ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd arbennig o werthfawr ac yn ysgogi dysgu yn hynod o lwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol eglur. Mae cefnogaeth fywiog y pennaeth cynorthwyol yn ddylanwad pwysig iawn ar ddatblygiad yr ysgol. Llwyddwyd mewn byr amser i greu ystod eang o weithdrefnau effeithiol sydd bellach ar waith. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd fel tîm. Mae disgwyliadau uchel yn amlwg ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol. Caiff pawb ei gynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn gyson. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn ddeallus i herio'r ysgol mewn meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Gwelir hyn yn arbennig ym meysydd lles, codi safonau llythrennedd a chydweithio gydag ysgolion eraill fel cymunedau dysgu proffesiynol. Rhoddir sylw da i lais y plentyn ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Er mai cymharol newydd yw'r gyfundrefn bresennol o hunanarfarnu mae'n galluogi'r ysgol i adnabod ei hun yn dda. Mae'r drefn wedi ei seilio yn llwyddiannus ar nifer o ddulliau gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi'n ofalus ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth ganfod barn disgyblion, aelodau'r staff, rhieni a'r llywodraethwyr.

Yn sgil y canfyddiadau a ddaw o'r dystiolaeth llunnir blaenoriaethau addas ar gyfer y cynllun gwella ysgol. Nodir dulliau gweithredu clir o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwyliedig ynghyd â monitro cynnydd. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau pwrpasol ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro a'i arfarnu'n ofalus gan aelodau o'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran codi safonau pynciol ers yr arolygiad blaenorol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda fel cymuned ddysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae aelodau staff dysgu'r tair ysgol o fewn y clwstwr yn cydweithio'n effeithiol wrth gynllunio a thrafod anghenion disgyblion. Maent hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd i arsylwi ar

arferion da mewn ysgolion eraill cyfagos. O ganlyniad i'r cydweithredu uchod mae nifer o'r strategaethau wedi eu hymgorffori yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Ceir partneriaeth gref iawn gyda rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth gyson a rennir gyda hwy ynglŷn â chynnydd eu plant, ac yn enwedig am eu targedau ar gyfer gwella. Mae hyn yn effeithiol iawn ac wedi llwyddo'n dda i gryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Mae partneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol wedi sicrhau cefnogaeth werthfawr yn enwedig wrth ddatblygu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae cydweithio da gyda'r cylch meithrin lleol a'r cylch Ti a Fi sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Mae hyn yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae partneriaeth strategol effeithiol iawn yn datblygu o fewn y clwstwr ysgolion sydd dan ofal y pennaeth. Manteisir ar bob cyfle i gydweithio a defnyddir arbenigedd staff y safle, a staff o'r tair ysgol yn llwyddiannus er mwyn cynllunio a darparu'r profiadau ac adnoddau gorau posibl i'r disgyblion.

Ceir partneriaeth dda hefyd gyda'r cylch ysgolion sy'n bwydo'r ysgol uwchradd leol. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda ac yn rhannu eu harbenigedd yn effeithiol er budd yr holl ddisgyblion. Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sy'n arwain at gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Dadansoddiad data Llanwnnen**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

**Cyfnod allweddol 1**

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn amrywio.  Mae wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf ac yn is na ffigyrau'r teulu mewn tair ohonynt.

Yn ystod y cyfnod mae bron pob disgybl wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau hyn yn unigol, yn ogystal â llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl hefyd yn amrywio.  Mae ymhlith y 25% uchaf mewn dwy o'r pum mlynedd diwethaf ac yn yr 50% isaf yn y tair blynedd arall.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Cymraeg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf.  Heblaw am y llynedd nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyflawni lefel 3 mewn gwyddoniaeth dros y pum mlynedd ddiwethaf.

**Cyfnod allweddol 2**

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn gyffredinol, wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru a'r teulu o ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae hyn hefyd yn wir am y pynciau hyn yn unigol, er i bob disgybl gyflawni ar lefel 4 mewn gwyddoniaeth mewn tair o'r blynyddoedd hyn.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl.  Er yn amrywio, yn gyffredinol mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae cyflawniadau ar lefel 5 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na ffigyrau'r teulu a chyfartaledd Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf.  Yn ystod y tair blynedd flaenorol, prin oedd y nifer o ddisgyblion oedd yn cyflawni'r lefelau uwch.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Mae pob rhiant yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plant yn ddiogel ynddi. Mae pob un hefyd yn credu bod ymddygiad yn dda, a'u bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae pob rhiant hefyd yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Maent i gyd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant a'u bod yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda iawn.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae ychydig yn ansicr ynghylch pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pob un yn teimlo bod gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith. Mae pob un yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud ei gwaith. Mae pawb yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu canolbwyntio ar eu gwaith. Ychydig iawn sydd yn dweud nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Goronwy Morris | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Garem Jackson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Heddwen Davies | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.